



**Tyn-y-caeau Lane,
Newton, Porthcawl, CF36 5SU
Rhif ffôn: 01656 783122
www.tygywyn-kennels.co.uk**

Busnes teuluol yw cenelau Tŷ Gwyn sydd wedi ei leoli yn Newton, Porthcawl ac sy'n darparu ar gyfer cŵn a chathod. O fewn pum munud, gellir cerdded at ddrysi anferth Twyni Tywod Merthyr Mawr a Thraeth Newton. Mae'n unigryw hefyd oherwydd ei safle ynghanol ysblander cefn gwlad, mewn llecyn tawel a heddychlon.

Ein nod yw cynnig gwasanaeth proffesiynol o'r safon uchaf i'r holl anifeiliaid anwes mewn amgylchedd cysurus, diogel a glân.

Nodweddion

- Trwydded Lawn
- Ar agor 7 diwrnod yr wythnos
- Amgylchedd diogel a chyfeillgar
- Safle Gwe
- Gwres yn y Cenelau
- Libart Ymarfer i'r cŵn
- Cerddwyr cŵn
- Camerâu CCTV
- Yswiriant Cyfun Llawn

Amdanom Ni: Rhedir ein cenelau i safon uchel iawn a darperir llety glân a chysurus i'ch anifeiliaid anwes. Caiff yr holl ddarpariaeth ei harolygu a'i thrwyddedu gan Gyngor Sir Penybont-ar-Ogwr.

Adeiladwyd ein cenelau i gyd i orgyrraedd y gofynion safonol. Mae gennym amrediad o genelau o rai sengl i faint teulu. Gwresogir y llety cyfan i sicrhau fod eich anifail anwes yn gysurus a darparwn welyau plastig a dillad gwely hefyd i gadw anifeiliaid anwes yn sych a chynnes. Serch hynny, mae croeso i chi ddod â'u basged a'u dillad gwely personol yn ogystal â thegan neu unrhyw beth a fydd yn eu helpu i deimlo'n gartrefol yn ystod eu harhosiad gyda ni.

Yswiriant: Mae'r holl anifeiliaid anwes wedi eu hyswiro yn ystod eu harhosiad gyda ni. Dylai perchnogion ein hysbysu o unrhyw salwch blaenorol neu barhaol cyn preswyllo.

Bwydo: Darparwn brydau bwyd ansawdd uchel i'n holl breswylwyr. Nid oes cost ychwanegol pe dymunwch ddod â bwyd eich hun i'ch anifail anwes os yw ar ddieta arbennig.

Meddyginiaethau: Yr ydym yn hapus i roi unrhyw feddyginiaeth i'ch anifeiliaid anwes os oes angen. Gellir trafod hyn wrth gyrraedd.

Brechiadau: Mae'n RHAID darparu tystysgrifau brechu cyfredol ar gyfer pob ci/cath wrth gyrraedd. Ni dderbynnir unrhyw anifail anwes heb dystysgrif brechu gyfredol.

ORIAU AGOR
DYDD LLUN – DYDD GWENER
9.00 Y.B.- 12.00 y prynhawn
4.00 Y.P.- 5.30 Y.P.

DYDD SADWRN, SUL A GŴYL BANC
9.00 Y.B.- 12.00 y prynhawn yn unig
Dydd Nadolig, Dydd San Steffan a Dydd Calan
- AR GAU

Archebion:

Rhagfyr, Ionawr, Pasg a holl wyliau'r ysgol yw cyfnodau prysur y busnes. Os bwriedir gadael eich anifail anwes gyda ni yn ystod y cyfnodau hyn, bydd angen archebu cyn gynted ag y bo modd i osgoi cael eich siomi. Bydd angen blaendal o 50% wrth archebu lle yn ystod y cyfnodau prysur, ac ni chaiff hwn ei ad-dalu.

Ein Taliadau

Mae'r ffioedd yn amrywio yn dibynnu ar faint eich anifail anwes. Codir ffi am y diwrnod. Os bydd eich anifail anwes yn cael ei gasglu cyn 11.00 y.b. ni fydd angen i chi dalu am y diwrnod hwnnw. NID OES GOSTYNGIAD YN Y PRIS AM GASGLU EICH ANIFAIL ANWES YN GYNHARACH NA'R DISGWYL.

| |
|-----------|
| Bach |
| Canolig |
| Mawr |
| Mawr Iawn |
| Anferth |
| CATH |

Bydd gostyngiadau fel a ganlyn::

| | |
|------------------------|------------------|
| Arhosiad 4 – 8 wythnos | 10% o'r cyfanswm |
| 8 wythnos neu fwy | 15% o'r cyfanswm |
| 3 anifail anwes | 10% o'r cyfanswm |
| 4 anifail anwes | 15% o'r cyfanswm |